# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 2

TRWYDDEDU SAFLEOEDD CARTREFI SYMUDOL ETC.

*Torri amod*

### 15 Torri amod

(1) Os yw'n ymddangos i awdurdod lleol sydd wedi dyroddi trwydded safle bod perchennog y tir yn methu neu wedi methu cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o amodau'r drwydded safle, caiff yr awdurdod lleol roi i'r perchennog—

(a) hysbysiad cosb benodedig, neu

(b) hysbysiad cydymffurfio.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r awdurdodau lleol ynghylch yr ystyriaethau y dylent eu hystyried wrth benderfynu a ddylid ymdrin â methiant i gydymffurfio ag amod mewn trwydded safle drwy roi hysbysiad cosb benodedig ynteu hysbysiad cydymffurfio.

(3) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath wrth wneud penderfyniad o'r fath.

(4) Pan fo hysbysiad cosb benodedig yn cael ei roi i berson mewn perthynas â methiant ond nad yw'r swm a bennir ynddo yn cael ei dalu yn unol â'r hysbysiad, caiff yr awdurdod lleol dynnu'r hysbysiad cosb benodedig yn ôl a rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person mewn perthynas â'r methiant.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 64(2)**

**I2** A. 15 mewn grym ar 1.10.2014 gan O.S. 2014/11, **ergl. 3(1)(b)** (ynghyd ag ergl. 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Adran 15.